Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
57/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
25/05/2023

# Agweddau'r Cyhoedd Tuag At Ddyfroedd Ymdrochi Mewndirol yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-960-9

# Agweddau'r Cyhoedd Tuag At Ddyfroedd Ymdrochi Mewndirol yng Nghymru

Awduron:

Fiona McAllister, Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: McAllister, F. (2023). *Arolwg Dynodi Dyfroedd Ymdrochi Mewndirol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 57/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dyfroedd-ymdrochi-mewndirol-yng-nghymru-agweddaur-cyhoedd

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Aimee Marks

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys

1. Cyflwyniad ac amcanion ........ 4
2. Methodoleg ........ 6
3. Canfyddiadau'r ymchwil ........ 8
Defnydd o ddyfroedd mewndirol yng Nghymru at ddibenion hamdden ........ 8
Cymhellion dros ddewis nofio yn yr awyr agored ........ 14
Rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw 16
Cefnogaeth i ddynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi/ hamdden ........ 21
4. Casgliadau ........ 27
Atodiad A – Holiadur yr Arolwg ........ 29

## Rhestr o’r ffigurau

Ffigur 3.1: Wedi ymweld â dyfroedd mewndirol neu ddyfroedd arfordirol yng Nghymru ar gyfer diwrnod allan/ at ddibenion hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf .................. 9

Ffigur 3.2: Diddordeb mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn ôl oedran (o gael eu harwain) 10

Ffigur 3.3: Diddordeb a chyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden (o gael eu harwain) .......................................................................................................................... 11

Ffigur 3.4: Cyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn ôl oedran (o gael eu harwain) .......................................................................................................................... 12

Ffigur 3.5: Cyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn ôl y math o leoliad........... 14

Ffigur 3.6: Prif resymau digymell dros nofio yn yr awyr agored .......................................... 15

Ffigur 3.7: Prif resymau o gael eu harwain dros nofio yn yr awyr agored............................ 16

Ffigur 3.8: Rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru (o gael eu harwain) ..................................................... 18

Ffigur 3.9: Cytundeb â’r datganiad ‘Rwy’n hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru o safon uchel’ yn ôl oedran .. 19

Ffigur 3.10: Cytundeb â’r datganiad ‘Does dim digon o safleoedd dŵr croyw mewndirol (e.e. afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr) sy’n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru’, yn ôl oedran ........................................................................................... 21

Ffigur 3.11: Cytundeb â’r datganiad ‘Fe hoffwn i weld safleoedd dŵr croyw mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru’n cael eu dynodi’n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden’ (Mae dynodi safle’n golygu bod ansawdd y dŵr yno’n cyrraedd safon benodol), yn ôl oedran ...................................................................................................................... 22

Ffigur 3.12: Cytundeb â’r datganiad ‘Byddai diddordeb gen i mewn cael mynediad at ddata mewn amser real am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru’...... 24

Ffigur 3.13: Cyfleusterau yr hoffent eu gweld mewn safleoedd dŵr croyw, pe baent yn cael eu dynodi’n safleoedd dŵr ymdrochi neu hamdden (o gael eu harwain)............................. 26

## Rhestr o’r tablau

Tabl 3.1 - Prif resymau pam fod pobl yn cytuno/ anghytuno â’r datganiad ‘Rwy’n hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru o safon uchel’ (digymell) .......................................... 20

Tabl 3.2 - Prif resymau pam fod pobl yn cytuno / anghytuno â’r datganiad ‘Fe hoffwn i weld safleoedd dŵr croyw mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru’n cael eu dynodi’n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden’ (digymell) .................. 23

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Dyfroedd neu safleoedd dŵr croyw mewndirol | Safleoedd dŵr megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr (nid safleoedd dŵr arfordirol megis traethau). |
| Gweithgareddau dŵr hamdden | Gweithgareddau megis pysgota, ceufadu/ canŵio, padlfyrddio, syrffio a nofio. |
| Gradd gymdeithasol | System dosbarthiad cymdeithasol a ddefnyddir mewn ymchwil i'r farchnad ac mewn sectorau eraill. Mae'r dosbarthiad yn aseinio gradd i bob aelwyd (A, B, C1, C2, D, E), sydd fel arfer yn seiliedig ar alwedigaeth a statws cyflogaeth y Prif Enillydd Incwm. |
| Rheolaethau cwota | Niferoedd targed o gyfweliadau a bennir ar gyfer grwpiau demograffig penodol yn y boblogaeth, i helpu i gyflawni sampl gynrychiolaidd ar gyfer yr arolwg, yw rheolaethau cwota. Mae rheolaethau cwota demograffig sy'n cyd-gloi'n golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran o fewn rhywedd. |

# 1. Cyflwyniad ac amcanion

1.1 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod poblogrwydd cynyddol nofio yn yr awyr agored a gweithgareddau dŵr eraill a'r manteision i iechyd a lles y gallant eu dwyn i gymunedau ledled Cymru. Mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (Cymru)[1] yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fynd ati'n flynyddol i adnabod yr holl ardaloedd ymdrochi poblogaidd yng Nghymru. Trwy'r rheoliadau hyn gall safleoedd dŵr gael eu dynodi'n safle ymdrochi lle mae ansawdd y dŵr yn cael ei brofi yn ystod y tymor ymdrochi ac yn cael dosbarthiad ansawdd. Amcan y rheoliadau hyn yw diogelu iechyd ymdrochwyr a'u hysbysu ynghylch peryglon i iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr gwael.

1.2 Mae cyflawni ansawdd dŵr o safon uchel yn helpu i gyfrannu at yr amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[2] am nifer o resymau. Mae hyn yn cynnwys ategu'r nod llesiant i greu 'Cymru Iachach' trwy hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ansawdd dŵr, yn ogystal â'r manteision i iechyd corfforol ac iechyd meddwl a ddaw yn sgîl cyfranogi mewn gweithgareddau hamdden mewn safleoedd dŵr ymdrochi. Mae dynodi dyfroedd ymdrochi i sicrhau ansawdd dŵr da hefyd yn ategu'r nod llesiant i greu 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn enwedig trwy gynorthwyo pobl Cymru i gymryd rhan mewn chwaraeon megis nofio.

1.3 Mae 107 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru. Caiff y rhain eu monitro ar gyfer ansawdd y dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru trwy gydol y tymor ymdrochi i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r safleoedd dynodedig cyfredol a gwybodaeth am ansawdd y dŵr i'w cael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru[3]. Ar hyn o bryd mae 106 o'r safleoedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru ar yr arfordir a dim ond un sy'n safle mewndirol (Llyn Padarn). Yn yr adroddiad hwn, mae safleoedd dŵr croyw a safleoedd dŵr mewndirol yn dermau a ddefnyddir yn gyfnewidiol; mae'r rhain yn cwmpasu afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr.

[1] Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (legislation.gov.uk)
[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU
[3] Gwybodaeth am Ansawdd Dŵr Ymdrochi yng Nghymru - Cyfoeth Naturiol Cymru

1.4 Gan gydnabod bod mwy o ddiddordeb mewn nofio yn yr awyr agored mewn safleoedd dŵr croyw, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i *‘ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau’r gwaith o fonitro ansawdd dŵr’* yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26[4].

1.5 Roedd Llywodraeth Cymru felly’n dymuno casglu gwybodaeth am ddiddordeb pobl mewn nofio yn yr awyr agored a gweithgareddau hamdden eraill sy’n gysylltiedig â dŵr ynghyd â’u barn am ddynodi safleoedd.

1.6 Cafodd Beaufort Research gomisiwn gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg cynrychiolaidd o agweddau’r cyhoedd tuag at ddyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru gan ddefnyddio Omnibws Cymru Medi 2022.

1.7 Nodau’r astudiaeth oedd deall yn well beth yw agweddau’r cyhoedd yng Nghymru tuag at ddyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru, ynghyd â’u dealltwriaeth amdanynt a’u hymgysylltiad â hwy. Bydd y canlyniadau’n cael eu defnyddio i drefnu polisi, ymchwil, addysg ac ymgysylltiad â’r cyhoedd i helpu i gyflawni’r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden.

[4] Y Rhaglen Lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar arolwg Omnibws Cymru Beaufort, sy'n cyfweld â sampl gynrychiolaidd o 1,000 o oedolion ledled Cymru ym mhob ton. Cyfwelir â set wahanol o oedolion ym mhob ton er y sicrheir bod samplau'n cydweddu o ran nodweddion demograffig allweddol.

2.2 Cynhelir cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint™. Mae platfform Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau amrywiol yn y diwydiant gan gynnwys ISO 20252 – y safon ansawdd ryngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil i'r farchnad. Mae nifer o wiriadau ansawdd data[5] wedi'u hymgorffori yn system Cint™ ac mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a mesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn hepgor ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

2.3 Wrth gynnal yr arolwg gosodwyd rheolaethau cwota demograffig sy'n cyd-gloi[6] ar oedran o fewn rhywedd. Gosodwyd rheolaeth cwota arall ar wahân ar radd gymdeithasol[7] ac fe gwblhawyd y cyfweliadau gyda thrigolion ymhob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grŵp awdurdod lleol a gradd gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu ffigyrau Cyfrifiad 2011 a nodweddion penodol poblogaeth Cymru.

---

[5] Diben y gwiriadau hyn yw sicrhau mai pobl go iawn sy'n ateb cwestiynau'r arolwg, atal ymatebion dyblyg a sicrhau y rhoddir digon o sylw i gwestiynau i ddarparu data o ansawdd da.

[6] Niferoedd targed o gyfweliadau a bennir ar gyfer grwpiau demograffig penodol yn y boblogaeth, i helpu i gyflawni sampl gynrychiolaidd ar gyfer yr arolwg yw rheolaethau cwota. Mae rheolaethau cwota demograffig sy'n cyd-gloi'n golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran o fewn rhywedd.

[7] System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio ar yr Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol (NRS) yw gradd gymdeithasol. Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

**AB:** Galwedigaethau rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch a chanolradd
**C1:** Galwedigaethau goruchwylio, galwedigaethau clercaidd a galwedigaethau rheoli, gweinyddol neu broffesiynol ar lefel iau
**C2:** Gweithwyr llaw crefftus
**DE:** Gweithwyr llaw lled-grefftus a heb sgiliau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro a gweithwyr ar y graddau isaf, pobl ddi-waith nad ydynt ond yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth.

2.4 Cafodd cwestiynau drafft ar gyfer yr arolwg Dyfroedd Ymdrochi Mewndirol eu darparu gan Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd yn derfynol ar y rhain yn dilyn trafodaethau gyda Beaufort (gweler Atodiad A am yr holiadur).

2.5 Cwestiynau caeëdig oedd y mwyafrif o’r cwestiynau a ofynnwyd; hynny yw, rhoddwyd opsiynau i’r cyfranogwyr ddewis ohonynt wrth ymateb. Weithiau roedd angen un ymateb, ac weithiau gellid dewis mwy nag un ymateb. Lle’r oedd cwestiynau penagored wedi’u cynnwys, gallai’r ymatebwyr ddarparu unrhyw ateb yr oeddent yn dymuno’i roi gan ddefnyddio’u geiriau eu hunain. Ar ddiwedd gwaith maes yr arolwg, datblygwyd ffrâm codau ar gyfer pob cwestiwn penagored yn seiliedig ar y rhestr o ymatebion air am air, fel bod atebion yn cael eu grwpio’n thematig. Aseiniwyd ymatebion unigol i’r codau perthnasol wrth ddadansoddi’r data ac fe gafodd y canlyniadau eu cynnwys yn y tablau data.

2.6 Mae cwestiynau ynglŷn â demograffeg yn cael eu cynnwys fel arfer safonol yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a gallai gael ei gwblhau yn newis iaith y cyfranogwyr.

2.7 Fe wnaed y gwaith maes rhwng **19 Medi a 9 Hydref 2022**. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau eu cwblhau a’u dadansoddi.

2.8 Mae tablau data llawn o’r arolwg wedi cael eu darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn adroddiad technegol ar wahân.

2.9 Mae Arolwg Omnibws Cymru’n defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid hap-samplu) i adlewyrchu demograffeg allweddol ym mhoblogaeth Cymru. Felly, mae unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg hwn yn adlewyrchu barn y sampl a dylid cymryd gofal wrth drosi’r canfyddiadau i boblogaeth ehangach Cymru.

# 3. Canfyddiadau'r ymchwil

## Defnydd o ddyfroedd mewndirol yng Nghymru at ddibenion hamdden

3.1 Roedd bron i bedwar ymhob deg o'r rhai y cyfwelwyd â hwy (39 y cant) wedi ymweld â dyfroedd arfordirol (e.e. traethau) a dyfroedd mewndirol (e.e. cronfeydd dŵr, llynnoedd neu afonydd) ar gyfer diwrnod allan neu at ddibenion hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd yr un gyfran (39 y cant) wedi ymweld â dyfroedd arfordirol yn unig, tra bo'r gyfran a oedd wedi ymweld â dyfroedd mewndirol yn unig yn is o lawer (6 y cant).


3.2 Ar y cyfan, felly, roedd bron hanner yr holl ymatebwyr (45 y cant) wedi ymweld â dyfroedd mewndirol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf at ddibenion hamdden. Nid oedd oddeutu un ymhob saith (16 y cant) wedi ymweld â dyfroedd mewndirol nac arfordirol.

3.3 Y rhai sy'n byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru[8] oedd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â dyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'r rhai sy'n byw yng Nghymoedd De Cymru oedd leiaf tebygol o fod wedi gwneud hynny (sef 51 y cant o'i gymharu â 39 y cant yn y drefn honno).

---

[8] Diffiniwyd y rhanbarthau fel a ganlyn:
- Gogledd Cymru: Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd
- Canolbarth / Gorllewin Cymru: Powys, Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro
- Gorllewin De Cymru: Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Cymoedd: Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent
- Caerdydd a De Ddwyrain Cymru: Caerdydd, Bro Morgannwg, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd

**Ffigur 3.1: Wedi ymweld â dyfroedd mewndirol neu ddyfroedd arfordirol yng Nghymru ar gyfer diwrnod allan/ at ddibenion hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf**[9]




*Sail: Pawb (1,000), Gogledd Cymru (219), Canolbarth/Gorllewin Cymru (159), Gorllewin De Cymru (162), Y Cymoedd (180), Caerdydd a De Ddwyrain Cymru (280)*

3.4 Roedd bron wyth ymhob deg (78 y cant) o'r ymwelwyr diweddar â safleoedd dŵr mewndirol fel cronfeydd dŵr, llynnoedd ac afonydd yng Nghymru wedi teithio yno mewn car. Dywedodd deuddeg y cant eu bod wedi cerdded, tra bo'r canrannau a ddefnyddiodd ddulliau teithio eraill yn isel iawn (er enghraifft fe wnaeth 3 y cant ddefnyddio bws, fe wnaeth 2 y cant ddefnyddio beic ac fe wnaeth 1 y cant ddefnyddio trên).


3.5 Cyflwynwyd rhestr o weithgareddau dŵr hamdden i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt pa rai, os o gwbl, yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt. Nofio oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar y cyfan (y dywedodd 44 y cant o'r rhai y cyfwelwyd â hwy fod ganddynt ddiddordeb ynddo), gyda phadlfyrddio a cheufadu/ canŵio yn dilyn wedyn, y naill a'r llall wedi'u dewis gan 17 y cant. Dewiswyd pysgota gan 13 y cant a syrffio gan 7 y cant. Nid oedd gan tua

[9] Efallai na fydd ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu

phedwar ymhob deg o'r rhai y cyfwelwyd â hwy (41 y cant) ddiddordeb mewn unrhyw weithgareddau dŵr hamdden.

3.6 Roedd pobl iau 16-34 oed yn fwy tebygol na phobl ganol oed a hŷn o fod â diddordeb ym mhob gweithgaredd dŵr hamdden. Dim ond 23 y cant o bobl 16-34 oed ddywedodd nad oedd diddordeb ganddynt mewn unrhyw weithgaredd dŵr hamdden, o'i gymharu â 56 y cant o'r rhai 55 oed a throsodd.

**Ffigur 3.2: Diddordeb mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn ôl oedran (o gael eu harwain)[10]**





*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (274), 35-54 (354), 55+ (372)*

3.7 Pan ofynnwyd iddynt pa rai o'r gweithgareddau dŵr hamdden hyn, os o gwbl, yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn gyffredinol roedd lefelau cyfranogi'n adlewyrchu lefelau'r diddordeb – gweler ffigur 3.3. Roedd gan fwy o bobl ddiddordeb mewn padlfyrddio nag oedd wedi rhoi cynnig arno, gydag 17 y cant yn dweud bod ganddynt ddiddordeb yn y gweithgaredd o'i gymharu ag 11 y cant a oedd wedi cymryd rhan ynddo. Roedd yr un peth yn wir i raddau llai helaeth am geufadu/ canŵio, gydag 17 y

[10] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant – cwestiwn amlddewis

cant yn dweud bod diddordeb ganddynt ond dim ond 14 y cant wedi cymryd rhan ynddo.

**Ffigur 3.3: Diddordeb a chyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden (o gael eu harwain)[11]**





*Sail: Pawb (1,000)*

3.8 Roedd pum deg pump y cant o'r rhai y cyfwelwyd â hwy wedi cyfranogi mewn o leiaf un gweithgaredd dŵr hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda hynny'n codi i 74 y cant o'r rhai 16-34 oed. Pobl hŷn sy'n 55 oed a throsodd oedd leiaf tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dŵr hamdden (sef 38 y cant).

3.9 Nofio oedd y gweithgaredd dŵr hamdden mwyaf poblogaidd ar gyfer yr holl gyfranogwyr, gyda 45 y cant wedi cymryd rhan ynddo. Roedd hyn yn cael ei ddilyn gan geufadu/ canŵio, yr oedd 14 y cant wedi cymryd rhan ynddo, pysgota (12 y cant) a phadlfyrddio (11 y cant). Roedd ymatebwyr 16-34 oed yn fwy tebygol o fod wedi cyfranogi ym mhob gweithgaredd ar gyfradd uwch. Roedd mwy na chwech ymhob deg o bobl iau wedi cyfranogi mewn nofio (62 y cant), roedd 25 y cant wedi cyfranogi mewn ceufadu a chanŵio, 20 y cant mewn padlfyrddio ac 17 y cant mewn pysgota.

[11] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant – cwestiwn amlddewis

**Ffigur 3.4: Cyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn ôl oedran (o gael eu harwain)[12]**




*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (274), 35-54 (354), 55+ (372)*

3.10 Roedd ychydig dros un ymhob pedwar o'r rhai y cyfwelwyd â hwy ar y cyfan (26 y cant) wedi cymryd rhan yn un o'r gweithgareddau hyn mewn safle dŵr croyw. Roedd 29 y cant arall wedi cymryd rhan mewn lleoliad nad oedd yn safle dŵr croyw, tra bo'r 45 y cant sy'n weddill heb gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn unrhyw le.

3.11 Wrth edrych ar ymddygiad y rhai a oedd wedi ymweld â safleoedd dŵr croyw yn unig yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid oedd y rhan fwyaf (34 o 59 o ymatebwyr) wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dŵr hamdden. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o ymweliadau â chronfeydd dŵr, llynnoedd neu afonydd yng Nghymru'n cael eu gwneud am resymau eraill.

3.12 Y rhai 16-34 oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi cyfranogi mewn gweithgaredd dŵr hamdden mewn lleoliad dŵr croyw, gyda 42 y cant wedi gwneud hynny (o'i gymharu â 27 y cant o bobl 35-54 oed ac 13 y cant o'r rhai 55 oed neu

[12] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant – cwestiwn amlddewis


drosodd). Yn ôl rhanbarth, y rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny (sef 36 y cant), a'r rhai sy'n byw yn y Cymoedd oedd leiaf tebygol (sef 18 y cant).

3.13 Y gweithgareddau dŵr hamdden a oedd yn cael eu gwneud amlaf mewn lleoliadau dŵr croyw oedd ceufadu/ canŵio, pysgota a phadlfyrddio. Roeddent i gyd yn fwy tebygol o fod wedi cael eu gwneud gan gyfranogwyr mewn safle dŵr croyw nag yn y môr. Er enghraifft, roedd bron i dri ymhob pedwar cyfranogwr diweddar mewn ceufadu/ canŵio wedi gwneud hynny mewn lleoliad dŵr croyw (74 y cant), o'i gymharu ag ychydig dros hanner (53 y cant) a oedd wedi gwneud hynny yn y môr. Roedd 71 y cant o gyfranogwyr diweddar mewn pysgota wedi gwneud hynny mewn lleoliad dŵr croyw, o'i gymharu â 58 y cant a oedd wedi gwneud hynny yn y môr, tra bo 64 y cant o badlfyrddwyr wedi gwneud hynny mewn lleoliad dŵr croyw o'i gymharu â 58 y cant a oedd wedi gwneud hynny yn y môr.

3.14 Ar y llaw arall, roedd nofio a syrffio'n llawer mwy tebygol o fod wedi cael eu gwneud yn y môr (neu, ar gyfer nofio, mewn pwll nofio dan do) nag mewn lleoliad dŵr croyw. Dim ond oddeutu un ymhob pedwar o'r rhai a oedd wedi cyfranogi mewn nofio yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf (24 y cant) oedd wedi gwneud hynny mewn lleoliad dŵr croyw, o'i gymharu â 65 y cant a oedd wedi gwneud hynny mewn pwll nofio dan do a 63 y cant yn y môr. Pan gafodd nifer y rhai a arolygwyd a oedd wedi nofio mewn lleoliadau dŵr croyw ei gyfrifo fel canran o gyfanswm y sampl o oedolion (yn hytrach na'r rhai a ddywedodd eu bod wedi nofio'n ddiweddar), mae'n awgrymu bod oddeutu 10 y cant o'r sampl wedi nofio yn yr awyr agored mewn lleoliad dŵr croyw yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd 87 y cant o'r rhai a oedd wedi cyfranogi mewn syrffio'n ddiweddar wedi gwneud hynny yn y môr, tra bod 15 y cant wedi gwneud hynny mewn lleoliad dŵr croyw[13].

[13] Gall hyn gynnwys bordhwylio

**Ffigur 3.5: Cyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden yn ôl y math o leoliad[14]**




*Sail: Y rhai sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd dŵr hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf – Unrhyw weithgaredd (552), Ceufadu/ Canŵio (133), Pysgota (108), Padlfyrddio (119), Nofio (445), Syrffio (53)*


**Cymhellion dros ddewis nofio yn yr awyr agored**

3.15 Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi nofio yn yr awyr agored mewn afon, llyn neu gronfa ddŵr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf roi ateb penagored i ddweud beth oedd eu rhesymau dros ddewis gwneud hynny. Fe wnaeth dau ddeg un o'r 98 o gyfranogwyr yn y grŵp yma grybwyll lleoliad/ golygfa/ golygfeydd prydferth, tra bo 14 o nofwyr yn yr awyr agored wedi dweud eu bod wedi ei wneud er mwyn hwyl neu fwynhad a 12 wedi dweud eu

[14] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant – cwestiwn amlddewis

bod wedi ei wneud i oeri mewn tywydd poeth. Caiff y prif resymau digymell eraill a roddwyd eu rhestru yn Ffigur 3.6 isod.

**Ffigur 3.6: Prif resymau digymell dros nofio yn yr awyr agored[15]**





*Sail: Y rhai sydd wedi nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf (98)*

3.16 Wedyn cafodd y rhai a oedd wedi nofio yn yr awyr agored mewn lleoliad dŵr croyw eu harwain â rhestr o resymau posibl dros ddewis nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr a gofynnwyd iddynt pa rai oedd yn berthnasol iddynt hwy.

3.17 Roedd wyth deg dau o'r 98 o nofwyr mewn dŵr croyw a arolygwyd yn cytuno eu bod yn gwneud hynny er mwyn hwyl. Dywedodd pum deg pump o'r grŵp yma mai i gael ymarfer corff a/neu hyfforddiant ydoedd, tra bo nifer tebyg (54 o ymatebwyr) wedi dweud mai er mwyn eu hiechyd meddwl a'u lles ydoedd. Cafodd rhesymau posibl eraill eu cadarnhau gan niferoedd llai o lawer o nofwyr mewn dŵr croyw (gweler Ffigur 3.7).

[15] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 98 – cwestiwn amlddewis

**Ffigur 3.7: Prif resymau o gael eu harwain dros nofio yn yr awyr agored[16]**




*Sail: Y rhai sy'n nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru (98)*

3.18 Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml yr oeddent yn nofio yn yr awyr agored mewn safleoedd dŵr croyw, dywedodd 7 nofiwr mewn dŵr croyw eu bod yn gwneud hynny o leiaf unwaith yr wythnos, roedd 28 yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis ac roedd 22 yn gwneud hynny bob rhyw ychydig fisoedd. O'r gweddill, dywedodd 31 eu bod yn nofio mewn safleoedd dŵr croyw ychydig o weithiau'r flwyddyn, tra bo 10 cyfranogwr wedi dweud eu bod yn gwneud hynny'n llai aml.

**Rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw**

3.19 Cafodd yr holl gyfranogwyr yn yr arolwg eu harwain â rhestr o rwystrau posibl a gofynnwyd iddynt pa rai oedd yn atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored (megis pysgota, ceufadu/ canŵio, padlfyrddio a nofio) mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru yn eu tyb hwy.


3.20 Y prif rwystrau canfyddedig oedd pryderon ynghylch diogelwch a phryderon ynghylch ansawdd y dŵr, y dewiswyd y naill a'r llall gan oddeutu hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy (53 y cant a 49 y cant yn y drefn honno). Roedd tua phedwar ymhob deg yn teimlo y byddai cyfleusterau cyfyngedig mewn safleoedd dŵr croyw a diffyg gwybodaeth am argaeledd safleoedd addas yn

[16] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 98 – cwestiwn amlddewis

atal pobl (y dewiswyd y naill a’r llall gan 44 y cant). Roedd tua dau ymhob deg yn teimlo nad oedd digon o safleoedd dŵr croyw yn agos atynt (21 y cant), ei bod hi’n anodd cyrraedd safleoedd dŵr croyw (20 y cant) ac efallai na chaiff pobl ddefnyddio’r safleoedd dŵr croyw (19 y cant). Dim ond 10 y cant oedd yn teimlo nad oedd unrhyw un o’r rhain yn rhwystrau.

3.21 Roedd y rhai a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn fwy tebygol o ddewis pob rhwystr na’r rhai nad oeddent wedi cymryd rhan ynddynt. Yn arbennig, roedd cyfrannau mwy o ddefnyddwyr yn teimlo y byddai pryderon ynghylch diogelwch a diffyg gwybodaeth am safleoedd addas yn atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored mewn safleoedd dŵr croyw (gweler Ffigur 3.8 isod).

**Ffigur 3.8: Rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru (o gael eu harwain)[17]**




*Sail: Pawb (1,000), wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw (252), ddim wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw (748)*

3.22 Yn ystod yr arolwg fe gyflwynwyd rhai datganiadau i gyfranogwyr am safleoedd dŵr croyw mewndirol ac fe ofynnwyd iddynt ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un. Gallent ateb '*cytuno'n gryf*', '*cytuno*', '*ddim yn cytuno nac yn anghytuno*', '*anghytuno*' neu '*anghytuno'n gryf*'. Cafodd '*Ddim yn gwybod*' ei gynnwys fel opsiwn hefyd.


3.23 Roedd un o'r datganiadau'n ymwneud â barn pobl am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw. Roedd y farn ynglŷn â'r mater yma wedi'i hollti – er bod oddeutu tri ymhob deg o'r rhai y cyfwelwyd â hwy (31 y cant) yn

[17] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant – cwestiwn amlddewis

cytuno[18] eu bod yn *hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru o safon uchel*, roedd bron i ddau ymhob deg (19 y cant) yn anghytuno[19]. Ar yr un pryd, nid oedd gan gyfran uchel iawn (49 y cant) unrhyw farn neu fe wnaethant ymateb gan ddweud eu bod 'ddim yn gwybod', yn enwedig ymhlith y grŵp oedran dros 55 oed.

3.24 Roedd y rhai a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod ansawdd y dŵr o safon uchel na'r rhai nad oeddent. Roedd 41 y cant o ddefnyddwyr yn cytuno â'r datganiad, o'i gymharu â 28 y cant o'r rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr.

**Ffigur 3.9: Cytundeb â'r datganiad 'Rwy'n hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru o safon uchel' yn ôl oedran**




*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (274), 35-54 (354), 55+ (372)*

3.25 Y prif reswm digymell a roddwyd gan y rhai a ddywedodd eu bod yn hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw o safon uchel oedd eu bod yn

[18] Yn ymateb gan ddweud naill ai eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu eu bod yn 'cytuno'
[19] Yn ymateb gan ddweud naill ai eu bod yn 'anghytuno'n gryf' neu eu bod yn 'anghytuno'

teimlo bod ansawdd y dŵr yn cael ei wirio'n rheolaidd ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel (25 y cant). Rhesymau eraill oedd eu bod yn credu bod gan Gymru ddŵr glân a bod y dŵr mewn safleoedd o'r fath yn edrych yn lân ac yn groyw (y cawsant ill dau eu rhoi gan 14 y cant o'r grŵp yma).

3.26 I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a oedd yn llai hyderus ynglŷn ag ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw'n fwyaf tebygol o grybwyll pryderon ynghylch llygredd a charthffosiaeth yn mynd i mewn i'r dŵr (43 y cant). Rhoddwyd rhesymau eraill gan gyfrannau is o lawer o'r grŵp yma. Lle gwnaeth llai na phump y cant roi rheswm nid yw hwn wedi cael ei gynnwys isod a gallai ymatebwyr ddarparu mwy nag un rheswm digymell, felly nid yw'r colofnau cytuno nac anghytuno'n gwneud cyfanswm o 100 y cant yn nhabl 3.1 isod.

**Tabl 3.1 - Prif resymau pam fod pobl yn cytuno/ anghytuno â'r datganiad 'Rwy'n hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru o safon uchel' (digymell)**


| Rhesymau dros gytuno | Anghytuno (y cant)<br><br>*Sail: 303* | Rhesymau dros anghytuno | Anghytuno (y cant)<br><br>*Sail: 192* |
|---|---|---|---|
| Mae ansawdd y dŵr yn cael ei wirio'n rheolaidd/ ei fonitro/ ei gynnal a'i gadw i safon uchel | 25 | Llygredd/ carthffosiaeth/ elifiant llygredig yn mynd i mewn i'r dŵr | 43 |
| Cymru ydyw/ Mae gan Gymru ddŵr glân | 14 | Nid yw'r dŵr yn edrych yn lân/ naturiol | 11 |
| Mae'r dŵr yn lân/ yn edrych yn lân/ yn groyw | 14 | Problemau ansawdd dŵr/ ddim yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn | 9 |
| O'r hyn yr wyf fi wedi'i weld/ ei glywed yn y cyfryngau | 8 | Dim digon o wybodaeth gen i | 8 |
| Diffyg cyfleusterau/ safleoedd | 5 | O'r hyn yr wyf wedi'i weld/ ei glywed yn y cyfryngau | 6 |
| | | Ddim yn gweld pysgod/ bywyd gwyllt | 5 |
| | | Ddim yn gwybod llawer/ digon amdano | 5 |

*Sail: Y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r datganiad – Cytuno (303), Anghytuno (192)*

3.27 Roedd datganiad arall yn canolbwyntio ar argaeledd safleoedd dŵr croyw sy'n addas ar gyfer gweithgareddau dŵr hamdden yng Nghymru. Roedd ychydig dros un ymhob tri'n cytuno bod *dim digon o safleoedd dŵr croyw mewndirol sy'n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru* (35 y cant), oddeutu tair gwaith yn fwy na'r gyfran a oedd yn anghytuno (12 y cant). Roedd dros hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy naill ai'n ansicr neu'n methu ag ateb, fodd bynnag, gyda 32 y cant ddim yn cytuno nac yn anghytuno ac 20 y cant yn ateb eu bod 'ddim yn gwybod'.

3.28 Y rhai 16-34 oed oedd y rhai mwyaf tebygol o'r holl grwpiau oedran o deimlo bod nifer y safleoedd dŵr croyw mewndirol sy'n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru'n annigonol, gyda 41 y cant yn cytuno â'r datganiad a 15 y cant yn anghytuno.

**Ffigur 3.10: Cytundeb â'r datganiad 'Does dim digon o safleoedd dŵr croyw mewndirol (e.e. afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr) sy'n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru', yn ôl oedran**




*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (274), 35-54 (354), 55+ (372)*


**Cefnogaeth i ddynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi/ hamdden**

3.29 Roedd bron i ddau ymhob tri o'r rhai y cyfwelwyd â hwy (64 y cant) yn cytuno yr *hoffent weld safleoedd dŵr croyw mewndirol fel afonydd, llynnoedd a*

*chronfeydd dŵr yng Nghymru'n cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden.* Dim ond 5 y cant oedd yn anghytuno, tra nad oedd 21 y cant yn gallu mynegi barn (ddim yn cytuno nac yn anghytuno) a bod 11 y cant wedi ateb gan ddweud eu bod 'ddim yn gwybod'.

3.30 Pobl iau oedd fwyaf tebygol o fod o blaid dynodi'r safleoedd, gyda 67 y cant o'r rhai 16-34 oed yn cytuno, o'i gymharu â 64 y cant o bobl 35-54 oed a 60 y cant o'r rhai 55 oed a throsodd yn gwneud hynny.

**Ffigur 3.11: Cytundeb â'r datganiad 'Fe hoffwn i weld safleoedd dŵr croyw mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru'n cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden' (Mae dynodi safle'n golygu bod ansawdd y dŵr yno'n cyrraedd safon benodol), yn ôl oedran**




*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (274), 35-54 (354), 55+ (372)*

3.31 Rhoddwyd ystod eang o resymau yn ddigymell gan y rhai a oedd yn gefnogol i ddynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi/ hamdden. Y prif reswm oedd eu bod yn teimlo y byddai'n ei gwneud yn fwy diogel ymdrochi yno (a grybwyllwyd gan 22 y cant o'r grŵp yma). Rhesymau eraill a roddwyd gan oddeutu un ymhob saith o'r grŵp yma oedd eu bod yn teimlo y byddai'n gwella ansawdd y dŵr ac yn darparu mwy o leoedd i nofio (a grybwyllwyd gan 15 y cant ac 14 y cant yn y drefn honno).

3.32 I’r gwrthwyneb, y prif resymau a roddwyd gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu dynodi safleoedd oedd y gallai olygu mewnlifiad o dyrfaoedd i’r lleoedd hyn, a fyddai’n eu difetha, a’u bod yn teimlo y gallai fod yn beryglus nofio yno. Mynegwyd y safbwyntiau hyn gan 16 allan o 45 ac 13 allan o 45 o ymatebwyr yn y drefn honno nad oeddent yn cytuno yr hoffent weld mwy o afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru’n cael eu dynodi’n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden.

**Tabl 3.2 - Prif resymau pam fod pobl yn cytuno / anghytuno â’r datganiad ‘Fe hoffwn i weld safleoedd dŵr croyw mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru’n cael eu dynodi’n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden’ (digymell)**

| Rhesymau dros gytuno | Cytuno (y cant)<br>*Sail: 632* | Rhesymau dros anghytuno | Anghytuno (nifer yr ymatebwyr)<br>*Sail: 45** |
|---|---|---|---|
| Ei wneud yn fwy diogel/ er mwyn diogelwch | 22 | Ddim eisiau i dyrfaoedd ddod yno/ gallai ddifetha’r lleoedd | 16 |
| Gwella ansawdd dŵr/ mae dŵr glân yn bwysig | 15 | Rhy beryglus/ angen achubwyr bywydau | 13 |
| Mwy o leoedd i nofio | 14 | Gwella ansawdd dŵr/ mae dŵr glân yn bwysig | 5 |
| Bydd pobl yn ei fwynhau/ Fe hoffwn i wneud | 9 | Da i’r amgylchedd/ byddai’n golygu mwy o fonitro | 4 |
| Sicrwydd/ tawelwch meddwl | 8 | Ddim y lleoedd iawn i nofio | 3 |
| Annog mwy o bobl i nofio yno | 6 | | |
| Da i iechyd meddwl/ lles | 6 | | |
| I bawb ei defnyddio/ hygyrch/ rhad ac am ddim | 5 | | |


*Sail: Y rhai yn cytuno ac yn anghytuno â’r datganiad – Cytuno (632), Anghytuno (45)**
** Sail fach felly cyflwynir ffigyrau fel niferoedd yr ymatebwyr, yn hytrach na chanrannau*

3.33 Roedd bron hanner yr ymatebwyr (48 y cant) yn cytuno y *byddai diddordeb ganddynt mewn cael mynediad at ddata mewn amser real am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru*, o’i gymharu â llai na dau

ymhob deg (17 y cant) a oedd yn anghytuno. Nid oedd 25 y cant arall yn cytuno nac yn anghytuno, tra bo 10 y cant heb ateb.

3.34 Y rhai 16-34 oed a’r rhai 35-54 oed oedd â’r diddordeb mwyaf yn y syniad o gael mynediad at ddata mewn amser real am safon ansawdd y dŵr, gyda 55 y cant a 53 y cant o’r naill grŵp a’r llall yn y drefn honno’n dweud y byddai ddiddordeb ganddynt, o’i gymharu â 38 y cant o’r rhai dros 55 oed.

**Ffigur 3.12: Cytundeb â’r datganiad ‘Byddai diddordeb gen i mewn cael mynediad at ddata mewn amser real am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru’**





*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (274), 35-54 (354), 55+ (372)*

3.35 Pan gawsant eu harwain â rhestr o gyfleusterau posibl gan ofyn iddynt pa rai, os o gwbl, yr hoffent eu gweld mewn safle dŵr croyw pe bai’n cael ei ddynodi’n safle dŵr ymdrochi neu hamdden yng Nghymru, y cyfleusterau mwyaf poblogaidd oedd toiledau a chyfleusterau parcio ceir (a ddewiswyd gan 75 y cant a 70 y cant o’r rhai y cyfwelwyd â hwy). Fe hoffai oddeutu chwech ymhob deg weld caffi/ lle bwyta a chyfleusterau newid (62 y cant a 59 y cant yn y drefn honno), tra hoffai bron hanner weld cyfleusterau llogi ar gyfer gweithgareddau (er enghraifft i logi canŵs neu badlfyrddau) (47 y cant). Fe hoffai tua thri ymhob deg (31 y cant) weld pontŵn mewn safleoedd dynodedig.

3.36 Ni fyddai ar naw y cant ar y cyfan eisiau unrhyw gyfleusterau mewn safleoedd dynodedig, gan y byddai'n well ganddynt i'r safleoedd aros yn gwbl naturiol. Roedd y gyfran hon yn codi i 15 y cant o nofwyr yn yr awyr agored (hynny yw, y rhai a oedd wedi nofio mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf).

3.37 Roedd y rhai a oedd wedi cymryd ran mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru'n fwy tebygol o fod â diddordeb ym mhob cyfleuster na'r rhai nad oeddent wedi cymryd rhan ynddynt. Roedd y galw ymhlith y rhai a oedd wedi cyfranogi mewn gweithgareddau'n sylweddol uwch yn achos toiledau (82 y cant o'i gymharu â 73 y cant), caffis neu leoedd bwyta (69 y cant o'i gymharu â 59 y cant), cyfleusterau llogi ar gyfer gweithgareddau (56 y cant o'i gymharu â 44 y cant) a phontynau (42 y cant o'i gymharu â 27 y cant).

**Ffigur 3.13: Cyfleusterau yr hoffent eu gweld mewn safleoedd dŵr croyw, pe baent yn cael eu dynodi'n safleoedd dŵr ymdrochi neu hamdden (o gael eu harwain)**[20]




*Sail: Pawb (1,000), wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw (252), ddim wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw (748)*

[20] Nid yw'r ffigyrau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant – cwestiwn amlddewis

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r arolwg yn dynodi bod ymgysylltiad y cyhoedd â dyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru'n weddol uchel ond ei fod yn is nag ymgysylltiad pobl â dyfroedd arfordirol. Er bod bron hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy (45 y cant) wedi ymweld â dyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, roedd bron wyth ymhob deg (78 y cant) wedi ymweld â dyfroedd arfordirol at ddibenion hamdden.

4.2 Roedd cyfranogiad mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw'n is na lefelau ymweld – roedd oddeutu un ymhob pedwar o'r rhai y cyfwelwyd â hwy (26 y cant) wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd dŵr hamdden mewn llyn, afon neu gronfa ddŵr yng Nghymru'n ddiweddar. Roedd lefelau cyfranogi'n uwch ymhlith pobl iau nag ymhlith unrhyw grŵp oedran arall. Roedd gan y rhai 16-34 oed fwy o ddiddordeb ym mhob gweithgaredd dŵr hamdden hefyd. Mae hyn yn awgrymu bod pobl iau'n gynulleidfa darged allweddol i hyrwyddo dyfroedd ymdrochi mewndirol dynodedig ar gyfer defnydd hamdden yn y dyfodol.

4.3 Er mai nofio oedd y gweithgaredd dŵr hamdden mwyaf poblogaidd ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn llawer mwy tebygol o fod wedi nofio yn y môr neu mewn pwll nofio dan do nag mewn lleoliad dŵr croyw yng Nghymru. Er bod lefelau cyfranogiad mewn ceufadu/ canŵio, pysgota a phadlfyrddio'n is, roedd y gweithgareddau hyn i gyd yn fwy tebygol o fod wedi cael eu gwneud mewn llynnoedd, afonydd a chronfeydd dŵr nag mewn dyfroedd arfordirol. Ymddengys fod cyfle i gynyddu cyfranogiad mewn nofio mewn lleoliadau dŵr croyw yng Nghymru.

4.4 Pan oedd nifer y rhai a arolygwyd a oedd yn nofio mewn lleoliadau dŵr croyw'n cael ei gyfrifo fel canran o gyfanswm y sampl o oedolion, mae'n awgrymu bod oddeutu 10 y cant o'r sampl wedi nofio yn yr awyr agored mewn lleoliad dŵr croyw yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae lleoliad prydferth a'r agwedd olygfaol ar leoliadau dŵr mewndirol yn un o'r prif gymhellion dros nofio yn yr awyr agored. Roedd er mwyn hwyl, i gael ymarfer corff/ hyfforddiant ac er mwyn iechyd meddwl/ lles yn rhesymau pwysig hefyd dros ddewis nofio yn yr awyr agored.

4.5 Y rhwystrau allweddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw oedd pryderon ynghylch diogelwch a phryderon ynghylch ansawdd y dŵr. Mae angen mynd i'r afael â'r ddau er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio safleoedd dŵr croyw ar gyfer ymdrochi neu weithgareddau hamdden eraill yn y dyfodol. Byddai darparu data mewn amser real am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw'n helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ansawdd y dŵr – byddai gan oddeutu hanner y cyfranogwyr yn yr arolwg ddiddordeb mewn cael mynediad at y data yma.

4.6 Yr hyn sy'n fwy, fe wnaeth nifer o'r rhai a arolygwyd ymateb gan ddweud eu bod 'ddim yn gwybod' neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiadau ynglŷn â hyder yn ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw a bod dim digon o safleoedd dŵr croyw ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden. Mae hyn yn awgrymu y gallai gwybodaeth sy'n fwy hygyrch yn gyffredinol gynyddu gwybodaeth y cyhoedd am ansawdd dŵr a safleoedd addas ar gyfer defnydd hamdden.

4.7 Rhwystrau eraill i'w goresgyn yw diffyg gwybodaeth am safleoedd sydd ar gael (roedd traean o'r rhai y cyfwelwyd â hwy'n teimlo nad oedd digon o safleoedd dŵr croyw mewndirol sy'n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru) a diffyg cyfleusterau mewn safleoedd o'r fath.

4.8 Felly roedd y mwyafrif llethol o bobl o blaid darparu amwynderau megis toiledau, cyfleusterau parcio ceir, caffis a chyfleusterau newid mewn lleoliadau dŵr croyw a ddynodwyd yn safleoedd dŵr ymdrochi/ hamdden. Ar yr un pryd, byddai'n well gan gyfran fach o bobl i ddyfroedd ymdrochi mewndirol gael eu gadael yn naturiol, heb unrhyw gyfleusterau.

4.9 Mae'r astudiaeth yn dangos bod peth wmbredd o gefnogaeth i ddynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi/ hamdden – roedd bron i ddau ymhob tri o'r rhai y cyfwelwyd â hwy (64 y cant) o blaid, o'i gymharu â dim ond 5 y cant yn erbyn y syniad. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r syniad yn gwneud hynny am eu bod yn teimlo y byddai'n ei gwneud yn fwy diogel ymdrochi yno, yn gwella ansawdd y dŵr ac yn darparu mwy o leoedd i nofio. Roedd y rhai a oedd yn erbyn y syniad yn pryderu y byddai'n arwain at fewnlifiad o dyrfaoedd ac y gallai fod yn beryglus i nofwyr.

## Atodiad A – Holiadur yr Arolwg

**B02210-4 OMNIBWS CYMRU MEDI 2022**

**Arolwg Dynodi Dyfroedd Ymdrochi Mewndirol - TERFYNOL**

**C1a. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ydych chi wedi ymweld â dyfroedd arfordirol yng Nghymru (e.e. traethau) neu ddyfroedd mewndirol yng Nghymru (e.e. cronfeydd dŵr, llynnoedd neu afonydd) ar gyfer diwrnod allan neu at ddibenion hamdden?** *Dewiswch un*

Do – wedi ymweld â dyfroedd arfordirol (e.e. traethau) – Ewch i C2
Do – wedi ymweld â dyfroedd mewndirol (e.e. cronfeydd dŵr, llynnoedd, afonydd)– Gofynnwch C1b
Do – wedi ymweld â'r ddau – Gofynnwch C1b
Naddo, heb ymweld â'r naill na'r llall – Ewch i C2

**C1b. Sut ydych chi'n teithio fel arfer i <u>safleoedd dŵr mewndirol</u> megis cronfeydd dŵr, llynnoedd ac afonydd at ddibenion hamdden?** *Dewiswch un*

Beic
Bws
Car
Tacsi
Trên
Cerdded
Arall (rhowch fanylion) ________________________

Mae'n amrywio

**I'W OFYN I BAWB**

**C2. Pa rai o'r gweithgareddau dŵr hamdden canlynol, os o gwbl, y mae gennych chi ddiddordeb ynddynt?** *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

| | **C2. Diddordeb mewn** |
|---|---|
| | |
| Pysgota | |
| Ceufadu/ Canŵio | |
| Padlfyrddio | |
| Syrffio | |
| Nofio | |
| Arall (ysgrifennwch yr ateb) | |
| Dim o'r rhain | |

**C3. A pha rai o'r gweithgareddau dŵr hamdden hyn, os o gwbl, ydych chi wedi <u>cymryd rhan ynddynt</u> yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?**
*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

***Os ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw rai yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gofynnwch ar gyfer pob un***

**C4. Ym mha fath o leoliad(au) gymeroch chi ran mewn [YCHWANEGWCH Y GWEITHGAREDD e.e. pysgota]?**

***Ailadroddwch ar gyfer pob gweithgaredd a wnaed yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf***

| | **C3.** | **C4. Ble y cymerwyd rhan** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Pa rai gymerwyd rhan ynddynt** | **Pwll nofio dan do** | **Pwll nofio awyr agored** | **Môr** | **Afon** | **Llyn / Cronfa Ddŵr** |
| Pysgota | | | | | | |
| Ceufadu / Canŵio | | | | | | |
| Padlfyrddio | | | | | | |
| Syrffio | | | | | | |
| Nofio | | | | | | |
| Arall (ysgrifennwch yr ateb) ____________ | | | | | | |
| Dim o'r rhain | | | | | | |

***Os ydynt wedi cymryd rhan mewn nofio mewn afon, llyn neu gronfa ddŵr yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng Nghymru***

**C5. Beth yw eich rhesymau dros ddewis nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru?** *Ysgrifennwch yr ateb*

______________________________________________________

**C6. Pa rai o'r rhesymau canlynol dros ddewis nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru sy'n berthnasol i chi?** *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

Er mwyn ymarfer corff a / neu hyfforddiant
Er mwyn hwyl
Er mwyn fy iechyd meddwl a'm lles
Am resymau cymdeithasol / Rwy'n rhan o glwb nofio awyr agored
Roeddwn i ar wyliau
Nid oedd unrhyw le arall i nofio gerllaw

Arall (rhowch fanylion) __________________________________________
Ddim yn gwybod

**C7. Pa mor aml ydych chi'n nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru?** *Dewiswch un*

Bob dydd
Y rhan fwyaf o ddiwrnodau
Oddeutu unwaith yr wythnos
Ychydig o weithiau'r mis
Oddeutu unwaith y mis
Bob rhyw ychydig fisoedd
Ychydig o weithiau'r flwyddyn
Yn llai aml

**I'W OFYN I BAWB**

**C8. Beth sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored (fel pysgota, ceufadu / canŵio, padlfyrddio a nofio) mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr?** *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

Pryderon ynghylch diogelwch
Pryderon ynghylch ansawdd y dŵr
Anodd cyrraedd safleoedd dŵr croyw
Diffyg gwybodaeth am argaeledd safleoedd addas
Cyfleusterau cyfyngedig mewn safleoedd dŵr croyw (e.e. dim toiledau, caffis, cyfleusterau newid)
Dim digon o safleoedd dŵr croyw yn agos atynt
Dim digon o safleoedd dŵr croyw ledled Cymru
Ddim yn cael defnyddio'r safleoedd dŵr croyw
Arall (rhowch fanylion) ________________________________

Dim o'r rhain / dim byd
Ddim yn gwybod

**I'W OFYN I BAWB**

**C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**
*Defnyddiwch drefn ar hap*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| i) Fe hoffwn i weld safleoedd dŵr croyw mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru'n cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden' (Mae dynodi safle'n golygu bod ansawdd y | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| dŵr yno'n cyrraedd safon benodol) | | | | | | |
| ii) Does dim digon o safleoedd dŵr croyw mewndirol (e.e. afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr) sy'n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru | | | | | | |
| iii) Rwy'n hyderus bod ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru o safon uchel | | | | | | |
| iv) Byddai diddordeb gen i mewn cael mynediad at ddata mewn amser real am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru | | | | | | |

***I'w ofyn i bawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn gwybod' yn i) uchod***
**C10a. Pam ydych chi'n dweud hynny?** *Ysgrifennwch yr ateb*

______________________________________________________

***I'w ofyn i bawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn gwybod' yn iii) uchod***
**C10b. Pam ydych chi'n dweud hynny?** *Ysgrifennwch yr ateb*

______________________________________________________

**I'W OFYN I BAWB**
**C11. Pe bai safle dŵr croyw'n cael ei ddynodi'n safle dŵr ymdrochi neu hamdden yng Nghymru, pa gyfleusterau, os o gwbl, fyddai arnoch chi eisiau eu gweld yno?** *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

Cyfleusterau llogi ar gyfer gweithgareddau (e.e. i logi canŵs neu badlfyrddau)
Caffi / bwyd a diod
Parcio ceir
Cyfleusterau newid
Pontŵn (llwyfan glanio arnofiol yn darparu mynediad ar droed)
Toiledau
Arall (rhowch fanylion) ____________________________________

Dim – Byddai’n well gen i i’r safle fod yn naturiol a heb unrhyw gyfleusterau
Ddim yn berthnasol i mi / dim diddordeb
Ddim yn gwybod